

**Bywoliaeth Reithoral Y Bontfaen**

**Blwyddyn C – Y Pedwerydd Sul  
wedi'r Drindod  
Emyn I**

Sanctaid, sanctaid, sanctaid!  
Dduw hollgyfoethog,  
Gyda gwawr y bore  
dyrchafwn iti gan;  
Sanctaid, sanctaid, sanctaid!  
mawr wyt a thrugarog -  
Duw mewn Tri Pherson -  
Trindod ddiwahân.

Sanctaid, sanctaid, sanctaid!  
dy holl Saint a'th folant,  
Bwriant eu coronau  
O flaen y fainc i lawr :  
Engyl a seraffiaid  
glân a'th ogoneddant  
Beunydd a byth  
i dragwyddoldeb mawr.

Sanctaid, sanctaid, sanctaid!  
twyllwch a'th orchuddia,  
Ni all llygad gwael bechadur  
edrych ar dy wedd;  
Sanctaid wyt yn unig;  
ti, Dduw, sydd orucha'  
Mewn clod, a gallu,  
cariad pur, a hedd.

Sanctaid, sanctaid, sanctaid!  
Dduw hollgyfoethog,  
Dy holl waith a'th fawl di mewn  
gogoneddus gân;  
Sanctaid, sanctaid, sanctaid! mawr  
wyt a thrugarog -  
Duw mewn Tri Pherson -  
Trindod ddiwahân.

*Cyf. Morris Williams (Nicander)*

**Year C – The Fourth Sunday after  
Trinity  
Hymn I**

Holy, holy, holy!  
Lord God Almighty!  
Early in the morning  
our song shall rise to Thee;  
Holy, holy, holy,  
merciful and mighty!  
God in three Persons,  
blessèd Trinity!

Holy, holy, holy!  
All the saints adore Thee,  
Casting down their golden crowns  
around the glassy sea;  
Cherubim and seraphim  
falling down before Thee,  
Who wert, and art,  
and evermore shalt be.

Holy, holy, holy!  
though the darkness hide Thee,  
Though the eye of sinful man  
Thy glory may not see;  
Only Thou art holy;  
there is none beside Thee,  
Perfect in power,  
in love, and purity.

Holy, holy, holy!  
Lord God Almighty!  
All Thy works shall praise Thy Name,  
in earth, and sky, and sea;  
Holy, holy, holy;  
merciful and mighty!  
God in three Persons,  
blessèd Trinity!

*Reginald Heber 1783-1826*

## Y Colect

O Dduw, gwarchodwr pob un  
sy'n ymddiried ynot,  
nad oes dim yn nerthol hebot ti,  
na dim yn sanctaidd,  
ychwanega ac amlha  
dy drugaredd arnom,  
fel y gallwn, a thi yn llywodraethwr  
ac yn arweinydd i ni,  
dreiddio trwy bethau tymhorol  
fel na chollwn yn y diwedd  
y pethau tragwyddol;  
caniatâ hyn, Dad nefol,  
er mwyn Iesu Grist ein Harglwydd,  
sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi,  
yn undod yr Ysbryd Glân,  
yn un Duw, yn awr ac am byth.

**Amen.**

## Amos 7.7-17

Fel hyn y dangosodd i mi: dyma'r  
Arglwydd yn sefyll ger mur a godwyd â  
llynyn plwm, a'r llynyn plwm yn ei law. A  
dywedodd yr ARGLWYDD wrthyf, "Beth  
a weli, Amos?" Atebais innau, "Llynyn  
plwm." A dywedodd yr Arglwydd, "Wele  
fi'n gosod llynyn plwm yng nghanol fy  
mhobl Israel; nid af heibio iddynt byth eto.  
Difodir uchelfeydd Isaac a distrywir  
cysegrleoedd Israel; a chodaf gleddyf yn  
erbyn tŷ Jeroboam." Yna anfonodd  
Amaseia offeiriad Bethel at Jeroboam  
brenin Israel i ddweud, "Cynllwyniodd  
Amos yn dy erbyn yng nghanol tŷ Israel;  
ni all y wlad oddef ei holl eiriau.  
Oherwydd fel hyn y dywed Amos: 'Bydd  
Jeroboam yn marw trwy'r cleddyf, ac  
Israel yn mynd i gaethglud ymhell o'u  
gwlad.'" A dywedodd Amaseia wrth  
Amos, "Dos ymaith, weledydd; ffo i wlad  
Jwda; ennill dy damaid yno, a phroffwyda  
yno. Paid â phroffwydo ym Methel eto,  
gan mai dyma gysegr y brenin a theml y

## The Collect

O God, the protector  
of all who trust in you,  
without whom nothing is strong,  
nothing is holy:  
increase and multiply upon us  
your mercy;  
that with you as our ruler and guide  
we may so pass through  
things temporal  
that we finally lose not  
the things eternal;  
grant this, heavenly Father,  
for our Lord Jesus Christ's sake,  
who is alive and reigns with you,  
in the unity of the Holy Spirit,  
one God, now and for ever. **Amen.**

## Amos 7.7-17

This is what he showed me: the Lord was  
standing beside a wall built with a plumb-  
line, with a plumb-line in his hand. And  
the LORD said to me, 'Amos, what do  
you see?' And I said, 'A plumb-line.' Then  
the Lord said, 'See, I am setting a plumb-  
line in the midst of my people Israel; I will  
never again pass them by; the high places  
of Isaac shall be made desolate, and the  
sanctuaries of Israel shall be laid waste,  
and I will rise against the house of  
Jeroboam with the sword.' Then Amaziah,  
the priest of Bethel, sent to King  
Jeroboam of Israel, saying, 'Amos has  
conspired against you in the very centre  
of the house of Israel; the land is not able  
to bear all his words. For thus Amos has  
said, "Jeroboam shall die by the sword,  
and Israel must go into exile away from  
his land.'" And Amaziah said to Amos, 'O  
seer, go, flee away to the land of Judah,  
earn your bread there, and prophesy  
there; but never again prophesy at Bethel,

wladwriaeth." Ond atebodd Amos a dweud wrth Amaseia, "Nid oeddw'n i'n broffwyd, nac yn fab i broffwyd chwaith; bugail oeddw'n i, a garddwr coed sycamor; ond cymerodd yr Arglwydd fi oddi wrth y praidd, a dywedodd yr Arglwydd wrthyf, 'Dos i broffwydo i'm pobl Israel.'

Gwrando yn awr ar air yr Arglwydd. Yr wyt ti'n dweud, 'Paid â phroffwydo yn erbyn Israel, a phaid â llefaru yn erbyn tŷ Isaac.' Am hynny, fel hyn y dywed yr Arglwydd: 'Bydd dy wraig yn puteinio yn y ddinas; fe syrth dy feibion a'th ferched trwy'r cleddyf; rhennir dy dir â'r llinyn; byddi dithau'n marw mewn gwlad aflan, ac Israel yn mynd i gaethglud ymhell o'u gwlad.'

Dyma air yr Arglwydd.

**Diolch a fo i Dduw.**

## **Salm 82**

**A: Cyfod, O Dduw, i farnu'r ddaear**

Y mae Duw yn ei le yn y cyngor dwyfol; yng nghanol y duwiau y mae'n barnu. "Am ba hyd y barnwch yn anghyfiawn, ac y dangoswch ffafwr at y drygionus? **A.**

Rhowch ddeddfryd o blaid y gwan a'r amddifad, gwnewch gyfiawnder â'r truenus a'r diymgeledd. Gwardwch y gwan a'r anghenus, achubwch hwy o law'r drygionus. **A.**

"Nid ydynt yn gwybod nac yn deall, ond y maent yn cerdded mewn tywyllwch, a holl sylfeini'r ddaear yn ysgwyd. **A.**

Fe ddywedais i, 'Duwiau ydych, a meibion i'r Goruchaf bob un ohonoch.' Eto, byddwch farw fel meidrolion, a syrthio fel unrhyw dywysog." Cyfod, O Dduw, i

for it is the king's sanctuary, and it is a temple of the kingdom.' Then Amos answered Amaziah, 'I am no prophet, nor a prophet's son; but I am a herdsman, and a dresser of sycamore trees, and the Lord took me from following the flock, and the Lord said to me, "Go, prophesy to my people Israel." 'Now therefore hear the word of the Lord. You say, "Do not prophesy against Israel, and do not preach against the house of Isaac."

Therefore, thus says the Lord: "Your wife shall become a prostitute in the city, and your sons and your daughters shall fall by the sword, and your land shall be parcelled out by line; you yourself shall die in an unclean land, and Israel shall surely go into exile away from its land."

This is the word of the Lord.

**Thanks be to God.**

## **Psalm 82**

**R: Arise, O God and judge the earth.**

God has taken his stand in the council of heaven: in the midst of the gods he gives judgement:

'How long will you judge unjustly: and show such favour to the wicked? **R.**

You were to judge the weak and the orphan: defend the right of the humble and needy; Rescue the weak and the poor: deliver them from the hand of the wicked. **R.**

They have no knowledge or wisdom; they walk on still in darkness: all the foundations of the earth are shaken. **R.**

Therefore I say that though you are gods: and all of you children of the Most High, Nevertheless, you shall die like mortals: and fall like one of their princes.' Arise, O God and judge the earth: for it is you that

farnu'r ddaear, oherwydd eiddot ti yw'r holl genhedloedd. **A.**

### **Colosiaid 1.1-14**

Paul, apostol Crist Iesu trwy ewyllys Duw, a Timotheus ein brawd, at y saint yn Colosae, rhai ffyddlon yng Nghrist. Gras a thangnefedd i chwi oddi wrth Dduw ein Tad. Yr ydym bob amser yn ein gweddïau yn diolch amdanoch i Dduw, Tad ein Harglwydd Iesu Grist, oherwydd i ni glywed am eich ffydd yng Nghrist Iesu, ac am y cariad sydd gennych tuag at yr holl saint, deubeth sy'n tarddu o wrthrych eich gobaith, sydd ynghadw yn y nefoedd i chwi. Clywsoch eisoes am y gobaith hwn, yng ngair y gwirionedd, yr Efengyl sydd wedi dod atoch. Y mae'r Efengyl yn dwyn ffrwyth ac yn cynyddu trwy'r holl fyd, yn union fel y mae hefyd yn eich plith chwi, o'r dydd y clywsoch am ras Duw a'i amgyffred mewn gwirionedd. Dysgasoch hyn oddi wrth Epaffras, ein cydwas annwyl, sy'n weinidog ffyddlon i Grist ar eich rhan, ac ef sydd wedi'n hysbysu ni am eich cariad yn yr Ysbryd. Oherwydd hyn, o'r dydd y clywsom hynny, nid ydym yn peidio â gweddïo drosoch. Deisyf yr ydym ar ichwi gael eich llenwi, trwy bob doethineb a deall ysbrydol, ag amgyffrediad o ewyllys Duw, er mwyn ichwi fyw yn deilwng o'r Arglwydd a rhyngu ei fodd yn gyfan gwbl, gan ddwyn ffrwyth mewn gweithredoedd da o bob math, a chynyddu yn eich adnabyddiaeth o Dduw. Yr ydym yn deisyf ar ichwi gael eich grymuso â phob grymster, yn ôl nerth ei ogoniant ef, i ddyfalbarhau a hirymaros yn llawen ym mhob dim, gan ddiolch i'r Tad, yr hwn a'ch gwnaeth yn gymwys i gael cyfran o etifeddiaeth y saint yn y goleuni. Gwaredodd ni o afael y tywyllwch, a'n trosglwyddo i deyrnas ei

shall take all nations for your possession. **R.**

### **Colossians 1.1-14**

Paul, an apostle of Christ Jesus by the will of God, and Timothy our brother, To the saints and faithful brothers and sisters in Christ in Colossae: Grace to you and peace from God our Father. In our prayers for you we always thank God, the Father of our Lord Jesus Christ, for we have heard of your faith in Christ Jesus and of the love that you have for all the saints, because of the hope laid up for you in heaven. You have heard of this hope before in the word of the truth, the gospel that has come to you. Just as it is bearing fruit and growing in the whole world, so it has been bearing fruit among yourselves from the day you heard it and truly comprehended the grace of God. This you learned from Epaphras, our beloved fellow-servant. He is a faithful minister of Christ on your behalf, and he has made known to us your love in the Spirit. For this reason, since the day we heard it, we have not ceased praying for you and asking that you may be filled with the knowledge of God's will in all spiritual wisdom and understanding, so that you may lead lives worthy of the Lord, fully pleasing to him, as you bear fruit in every good work and as you grow in the knowledge of God. May you be made strong with all the strength that comes from his glorious power, and may you be prepared to endure everything with patience, while joyfully giving thanks to the Father, who has enabled you to share in the inheritance of the saints in the light. He has rescued us from the power of darkness and transferred us into the

annwyl Fab, yn yr hwn y mae inni  
brynedigaeth, sef maddeuant ein  
pechodau.

Dyma air yr Arglwydd.

**Diolch a fo i Dduw.**

### **Luc 10.25-37**

Gwrandewch Efengyl Crist yn ôl Sant Luc  
**Gogoniant i ti, O Arglwydd.**

Dyma un o athrawon y Gyfraith yn codi i  
roi prawf arno, gan ddweud, "Athro, beth  
a wnaif i etifeddu bywyd tragwyddol?"  
Meddai ef wrtho, "Beth sy'n ysgrifenedig  
yn y Gyfraith? Beth a ddarlleni di yno?"  
Atebodd yntau, "'Câr yr Arglwydd dy  
Dduw â'th holl galon ac â'th holl enaid ac  
â'th holl nerth ac â'th holl feddwl, a châr  
dy gymydog fel ti dy hun.'" Meddai ef  
wrtho, "Atebaist yn gywir; gwna hynny, a  
byw fyddi." Ond yr oedd ef am ei  
gyfiawnhau ei hun, ac meddai wrth Iesu,  
"A phwy yw fy nghymydog?" Atebodd  
Iesu, "Yr oedd rhyw ddyn yn mynd i lawr  
o Jerwsalem i Jericho, a syrthiodd i blith  
lladron. Wedi tynnu ei ddillad oddi  
amdano a'i guro, aethant ymaith, a'i adael  
yn hanner-marw. Fel y digwyddodd, yr  
oedd offeiriad yn mynd i lawr ar hyd y  
ffordd honno; pan welodd ef, aeth heibio  
o'r ochr arall. Yr un modd daeth Lefiad  
hefyd at y man; gwelodd ef, ac aeth heibio  
o'r ochr arall. Ond daeth teithiwr o  
Samariad ato; pan welodd hwn ef,  
tosturiodd wrtho. Aeth ato a rhwymo ei  
glwyfau, gan arllwys olew a gwin arnynt;  
gosododd ef ar ei anifail ei hun, a'i arwain  
i lety, a gofalu amdano. Trannoeth  
tynnodd ddau ddarn arian allan a'u rhoi i'r  
gwesteiwr, gan ddweud, 'Gofala amdano.  
Os byddi wedi gwario rhywbeth dros ben,  
fe dalaf fi yn ôl iti pan ddychwelaf.' Prun

kingdom of his beloved Son, in whom we  
have redemption, the forgiveness of sins.

This is the word of the Lord.

**Thanks be to God.**

### **Luke 10.25-37**

Listen to the gospel of Christ according  
to St Luke

**Glory to you, O Lord.**

Just then a lawyer stood up to test Jesus.  
'Teacher,' he said, 'what must I do to  
inherit eternal life?' He said to him, 'What  
is written in the law? What do you read  
there?' He answered, 'You shall love the  
Lord your God with all your heart, and  
with all your soul, and with all your  
strength, and with all your mind; and your  
neighbour as yourself.' And he said to  
him, 'You have given the right answer; do  
this, and you will live.' But wanting to  
justify himself, he asked Jesus, 'And who is  
my neighbour?' Jesus replied, 'A man was  
going down from Jerusalem to Jericho,  
and fell into the hands of robbers, who  
stripped him, beat him, and went away,  
leaving him half dead. Now by chance a  
priest was going down that road; and  
when he saw him, he passed by on the  
other side. So likewise a Levite, when he  
came to the place and saw him, passed by  
on the other side. But a Samaritan while  
travelling came near him; and when he  
saw him, he was moved with pity. He  
went to him and bandaged his wounds,  
having poured oil and wine on them.  
Then he put him on his own animal,  
brought him to an inn, and took care of  
him. The next day he took out two  
denarii, gave them to the innkeeper, and  
said, "Take care of him; and when I come  
back, I will repay you whatever more you

o'r tri hyn, dybi di, fu'n gymydog i'r dyn a syrthiodd i blith lladron?" Meddai ef, "Yr un a gymerodd drugaredd arno." Ac meddai Iesu wrtho, "Dos, a gwna dithau yr un modd."

Dyma Efenyl yr Arglwydd.  
**Moliant i ti, O Grist.**

### **Yr Ymbiliau**

Gweddiwn dros Eglwys Dduw yng Nghrist Iesu, a thros bob un yn ôl eu hangen.

O Dduw, creawdwr a chynhaliwr pawb, gweddiwn dros bobloedd o bob hil ac ym mhob math o angen: hysbysa dy ffyrdd ar y ddaear, dy allu achubol ymhlith yr holl genhedloedd ..

Arglwydd, yn dy drugaredd,  
**gwrando ein gweddi.**

Gweddiwn dros dy Eglwys ledled y byd a thros June ein hesgob: llywia ac arwain ni trwy dy Ysbryd Glân, fel y tywysir pob Cristion i ffordd y gwirionedd a chynnal y Ffydd mewn undeb ysbryd, rhwymyn tangnefedd, ac uniondeb buchedd.

Arglwydd, yn dy drugaredd,  
**gwrando ein gweddi.**

Cyflwynwn i'th dadol ymgeledd y rhai hynny sydd mewn pryder neu argyfwng corff, meddwl neu ysbryd; cysura a chynorthwya hwy yn eu hangen; dyro iddynt amynedd yn eu dioddefiadau, a dwg ddaioni o'u helbulon ...

Arglwydd, yn dy drugaredd,  
**gwrando ein gweddi.**

spend." Which of these three, do you think, was a neighbour to the man who fell into the hands of the robbers?' He said, 'The one who showed him mercy.' Jesus said to him, 'Go and do likewise.'

This is the Gospel of the Lord.  
**Praise to you, O Christ.**

### **The Intercessions**

Let us pray for the Church of God in Christ Jesus, and for all people according to their needs.

O God, the Creator and Preserver of all, we pray for people of every race and in every kind of need: make your ways known on earth, your saving power among all nations.

Lord, in your mercy  
**Hear our prayer**

We pray for your Church throughout the world and for June our Bishop: guide and govern us by your Holy Spirit, that all Christian people may be led into the way of truth, and hold the faith in unity of spirit, in the bond of peace and in righteousness of life.

Lord, in your mercy  
**Hear our prayer**

We commend to your fatherly goodness all who are anxious or distressed, in body, mind, or spirit; comfort and relieve them in their need; give them patience in their sufferings, and bring good out of their troubles.

Lord, in your mercy  
**Hear our prayer**

Ymddiriedwn i'th ofal grasol bawb a fu farw yn ffydd Crist, a molwn di am dy holl ffyddloniaid, gan ymlawenhau gyda hwy yng nghymunedeb y saint.

Dad Trugarog,  
**derbyn y gweddiau hyn  
er mwyn dy Fab,  
ein Gwaredwr Iesu Grist. Amen.**

## **Emyn 2**

Nid oes yng Nghrist na dwyrain, de, gorllewin, gogledd chwaith;  
cymdeithas gref o gariad sydd yn un drwy'r ddaear faith.

Calonnau cywir ymhob man,  
eu hundeb ynddo sydd;  
gwasanaeth Crist yw'r gadwyn aur sy'n cydio pawb trwy ffydd.

Pob lliw, pob llun, O down ynghyd,  
un teulu ydym ni;  
a wasanaetho Dduw ein Tad,  
mae'n frawd neu chwaer i mi.

Yng Nghrist ei hun cyferfydd pawb o bedwar ban y byd;  
mae'r saint yn un yng Nghrist yn awr drwy'r ddaear fawr i gyd.

*cyf William Morris, 1889-1979*

## **Ôl Gymun**

Dduw tragwyddol,  
cysur y gorthrymedig  
ac iachâwr y drylliedig,  
porthaist ni wrth  
fwrdd bywyd a gobaith.  
Dysg inni lwybrau addfwynder  
a thangnefedd,  
er mwyn i'r holl fyd gydnabod  
teyrnas dy Fab,  
Iesu Grist, ein Harglwydd. **Amen.**

We entrust to your gracious keeping all who have died in the faith of Christ, and we give you praise for all your faithful ones with whom we rejoice in the communion of saints.

Merciful Father,  
**accept these prayers  
for the sake of your Son,  
our Saviour Jesus Christ. Amen.**

## **Hymn 2**

In Christ there is no east or west,  
in him no south or north,  
but one great fellowship of love  
throughout the whole wide earth.

In Christ shall true hearts everywhere  
their high communion find;  
his service is the golden cord  
close-binding humankind.

Join hands, disciples of the faith,  
whate'er your race may be.  
All children of the living God  
are surely kin to me.

In Christ now meet both east and west;  
in him meet south and north.  
All Christly souls are one in him  
throughout the whole wide earth.

*John Oxenham, 1852-1941*

## **Post Communion Prayer**

Eternal God,  
comfort of the afflicted  
and healer of the broken,  
you have fed us at the table  
of life and hope:  
teach us the ways of gentleness  
and peace,  
that all the world may acknowledge  
the kingdom of your Son  
Jesus Christ our Lord. **Amen.**

### Emyn 3

Un sylfaen fawr yr Eglwys  
yr Arglwydd Iesu yw,  
ei greadigaeth Newydd  
drwy ddŵr a gair ein Duw;  
ei briodasferch sanctaidd  
o'r nef i'w cheisio daeth,  
â'i waed ei hun fe'i prynodd  
a'i bywyd ennill wnaeth.

Fe'i plannwyd drwy'r holl wledydd,  
ond un, er hyn i gyd,  
ei sêl, un ffydd, un Arglwydd,  
un bedydd drwy'r holl fyd;  
un enw glân folianna,  
un ymborth ynndi gawn,  
gan gyrchu at un gobaith  
o ddoniau'r nef yn llawn.

Yng nghanol gorthrymderau  
a thwrf rhyfeloedd mawr  
hiraethu mae am weled  
tangnefedd ar y llawr,  
nes troi ei ffydd yn olwg  
i lonni'i llygaid prudd,  
a'r Eglwys filwriaethus  
yn ogoneddus fydd.

Ond yma mae mewn undeb  
â Duw, y Tri yn Un,  
mewn dirgel, hardd gymundeb  
â seintiau'r nef ynglŷn:  
O deulu glân a dedwydd!  
O Arglwydd, nertha ni  
i esgyn gyda'r Iesu  
i'th bresenoldeb di.

*cyf. John Arthur Jackson 1845-75*

*Yr Eglwys yng Nghymru: Gair yr Arglwydd 2011.  
Hawlfraint © Cyhoeddiadau'r Eglwys yng  
Nghymru 2011.*

### Hymn 3

The Church's one foundation  
Is Jesus Christ her Lord,  
She is His new creation  
By water and the Word.  
From heaven He came and sought her  
To be His holy bride;  
With His own blood He bought her  
And for her life He died.

Elect from every nation,  
Yet one o'er all the earth;  
Her charter of salvation,  
One Lord, one faith, one birth;  
One holy Name she blesses,  
Partakes one holy food,  
And to one hope she presses,  
With every grace endued.

'Mid toil and tribulation,  
And tumult of her war,  
She waits the consummation  
Of peace forevermore;  
Till, with the vision glorious,  
Her longing eyes are blest,  
And the great Church victorious  
Shall be the Church at rest.

Yet she on earth hath union  
With God the Three in One,  
And mystic sweet communion  
With those whose rest is won,  
O happy ones and holy!  
Lord, give us grace that we  
Like them, the meek and lowly,  
On high may dwell with Thee:

*SJ Stone 1839-1900*

*The Church in Wales: Word of the Lord 2011.  
Copyright © Church in Wales Publications 2011.*